

## Nodiadau athrawon: Beth ydyn ni'n ei fwyta a'i yfed?

Cyfnod Sylfaen:		
<p><b>Crynodeb o'r ymholiad:</b> I ddechrau, ysgogir gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr trwy eu cael i ystyried sut i ddidoli a dosbarthu gwahanol fathau o fwyd a diodydd. Maent yn ystyried data a gyflwynir mewn siart cyfrif a chyfanswm nifer y marciau rhifo ac yna'n defnyddio'r data i dynnu llun pictogramau rhyngweithiol. Mae dysgwyr yn ystyried sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain, cyn iddynt archwilio faint o siwgr sydd mewn cynhyrchion bwyd a diod cyfarwydd a chynrychioli'r data hwn mewn gwahanol ffyrdd.</p>		<p><b>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:</b> CS: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: LLes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau byw eraill</p> <p><b>FfLIRh:</b> Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd Defnyddio data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p>
Sgrin 1	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Mae lluniau o wahanol fathau o fwyd a diod bob dydd yn ymddangos ar y sgrin, ynghyd â thri cylch.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr lusgo a gollwng y lluniau i mewn i grwpiau gan ddefnyddio'r sgwariau, a rhoi teitl i bob grŵp. I ddechrau, gellir cyfarwyddo'r dysgwyr i ddefnyddio dau gylch a rhoi maen prawf iddyn nhw os oes angen. Gellid gwneud y dasg yn anoddach drwy ofyn i'r dysgwyr benderfynu ar eu meini prawf eu hunain, rhoi dau faen prawf iddyn nhw, ac yn y blaen. Fel arall, efallai y gellid gofyn i'r dysgwyr gwblhau'r dasg mewn ffordd benagored, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar lefelau uwch i gynhyrchu diagram Venn* os y dymunant wneud hynny.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried sut i ddidoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf, neu ddau neu fwy o feini prawf.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> <a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a> – meddwlparu-rhannu; diagram Venn.*</p>

	<p>I ddechrau, efallai y bydd dysgwyr yn defnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu syniadau ynglŷn â sut y gellid didoli a dosbarthu'r lluniau. Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut y maent wedi didoli a dosbarthu'r lluniau a pha ffyrdd eraill y gallent eu defnyddio i'w didoli a'u dosbarthu. Elfen bwysig o'r dasg hon yw bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddewis sut y byddant yn gwneud y dasg. Bydd hyn yn arwain at amrywiaeth o syniadau a dulliau a bydd trafodaeth gyda'r dysgwyr yn debygol o arwain at gyflwyno geirfa wyddonol.</p>	<p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p><a href="http://www.foodafactoflife.org.uk/sheet.aspx?siteId=14&amp;sectionId=61&amp;contentId=458">http://www.foodafactoflife.org.uk/sheet.aspx?siteId=14&amp;sectionId=61&amp;contentId=458</a></p> <p><a href="http://change4lifewales.org.uk/supporters/resources/downloads/healthyating/?skip=1&amp;lang=cy">http://change4lifewales.org.uk/supporters/resources/downloads/healthyating/?skip=1&amp;lang=cy</a></p> <p><a href="https://hwb.gov.wales/resources/tree?sort=created&amp;language=cy">https://hwb.gov.wales/resources/tree?sort=created&amp;language=cy</a></p>
<p>Sgrin 2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrîn hon mae siart cyfrif sy'n dangos hoff ffrwythau dosbarth o blant.</p> <p>Nod y dasg hon yw i ddysgwyr ystyried yr hyn y mae'r siart cyfrif yn ei ddangos a faint o 'farciau cyfrif' sydd ar gyfer pob ffrwyth. Mae gofyn iddynt lenwi'r golofn 'cyfanswm' a defnyddio'r data i dynnu llun pictogram rhyngweithiol ar y sgrîn.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn ystyried data a gyflwynir mewn siart cyfrif, gan gyfrif cyfanswm nifer y marciau rhifo a defnyddio'r data i dynnu llun pictogramau rhyngweithiol.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: Mae disgwyl y bydd y dudalen we hon ar gael yn y Gymraeg yn y dyfodol agos:</p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/skillswise/factsheet/ma37grap-e3-f-pictograms">http://www.bbc.co.uk/skillswise/factsheet/ma37grap-e3-f-pictograms</a></p>



<p>Sgrin 3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Darperir cwestiynau i annog dysgwyr i gasglu eu data eu hunain am hoff ffrwythau'r plant yn eu dosbarth ac i benderfynu sut i gyflwyno'r data hwn.</p> <p>Maent yn cael eu hannog i ystyried, er enghraifft, sut y byddant yn canfod hoff ffrwyth pob plentyn, sut y byddant yn casglu a chadw cofnod o'r data hwn a llun o beth y byddant yn ei wneud i ddangos eu canlyniadau.</p> <p>Bydd y dasg hon yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu dysgwyr mewn trafodaethau am gasglu data a'r fformat y maent yn ei ddewis i gyflwyno'r data a'r rhesymeg y tu ôl i'w dewisiadau.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno eu data eu hunain.</p>
--------------------	--	--



<p>Sgrin 4</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrîn, mae llun yn dangos y swm o siwgr (mewn lymphiau) sydd mewn cynhyrchion bwyd a diod cyfarwydd.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr edrych ar y llun ac ystyried pa neges sydd yn y llun ac yna dweud faint o lymphiau o siwgr sydd ym mhob cynnyrch bwyd a diod yn y llun. Gofynnir iddynt ddangos yr wybodaeth sy'n ymddangos ar y sgrin, yn ymarferol yn amgylchedd eu hystafell ddsbarth. Gallai hyn gael ei wneud drwy ddefnyddio cynwysyddion bwyd a diod gwag a blociau adeiladu i gynrychioli ciwbiau siwgr, er enghraifft. Wedyn gellid annog y dysgwyr i ymchwilio i faint o gynnwys siwgr sydd mewn cynhyrchion bwyd a diod eraill ac i gyflwyno'r wybodaeth hon mewn arddangosfa yn yr ystafell ddsbarth.</p> <p>Mae'r cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut arall y gallent ddangos yr wybodaeth hon, sut y maent yn gwybod am y ffyrdd hyn a pha ffyrdd fyddai'r gorau efallai ar gyfer dangos yr wybodaeth. Diben hyn yw rhoi tasg agored i ddysgwyr lle maent yn dewis sut i gyflwyno'r wybodaeth ar y sgrin. Efallai y byddant yn tynnu llun pictogram neu siart bar, er enghraifft. Bydd hyn yn rhoi cyfle i drafod gyda dysgwyr eu syniadau ynglŷn â chynrychioli data mewn gwahanol ffyrdd.</p> <p>Awgrymir bod dysgwyr yn cael y cyfle ymarferol i arddangos y data gan ddefnyddio gwrthrychau go iawn, cyn y gosodir tasg fwy haniaethol o gynrychioli data iddynt, gan ddefnyddio pen ysgrifennu a phapur neu lyfr gwaith Excel.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried faint o siwgr sydd mewn cynhyrchion bwyd a diod cyfarwydd a chyflwyno'r data hwn mewn gwahanol ffyrdd.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> Cynwysyddion gwag o'r eitemau a ddangosir ar y sgrin, blociau/ciwbiau.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> <a href="http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/30759492">http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/30759492</a></p> <p><a href="http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/sugars.aspx">http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/sugars.aspx</a></p>
--------------------	---	---

## Cyfnod Allweddol 2

### Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, ysgogir gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr trwy eu cael i ystyried sut a pham rydym yn ychwanegu halen at fwyd. Maent yn ystyried data am gymeriant halen gwahanol bobl a faint o halen sydd mewn bwydydd rydym yn eu bwyta. Maent yn archwilio ac yn defnyddio amrediad, modd, cymedr a chanolrif i ddisgrifio setiau data cyn ystyried sut i drosglwyddo gwybodaeth o dabl i siart bar. Yn olaf, mae dysgwyr yn ymchwilio i faint o halen sydd mewn bwyd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i greu naill ai gwybodaeth iechyd y cyhoedd neu lythyr sy'n dwyn perswâd.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

CA2: Gwyddoniaeth: Cyddibyniaeth  
organebau CA2:

Dylunio a thechnoleg:  
Bwyd

### FfLIRh:

Defnyddio sgiliau mesur: Hyd,  
pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli  
canlyniadau

<p>Sgrin 1</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Dangosir sgwâr ffynhonnell* sy'n cynnwys clip fideo sy'n dangos halen yn cael ei ychwanegu at fwyd mewn ffyrdd cyfarwydd.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr ystyried beth a welant yn digwydd yn y clip fideo ac i ddefnyddio meddwlparu-rhannu* i fynegi eu syniadau. Drwy ddefnyddio'r sgwâr ffynhonnell, mae dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried yr hyn y gallant arsylwi arno a'i gasglu, beth arall y maent eisiau ei wybod a sut y byddant yn canfod hyn. Gellid cofnodi syniadau ar y sgrîn neu'r lawrlwytho'r sgwâr ffynhonnell.</p> <p>Mae'r drafodaeth hon yn debygol o gyflwyno geirfa wyddonol allweddol i'r dysgwyr a dechrau ar y broses lle maen nhw'n ystyried beth maent yn ei wybod, sut maen nhw'n gwybod y pethau hyn, y pethau y maent yn ansicr ynglŷn â nhw a pha fylchau a allai fod yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.</p> <p>Gellid annog dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau ymchwil i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau a godwyd wrth ddefnyddio'r sgwâr Ffynhonnell. Er enghraifft, gallai dysgwyr ymchwilio i hanes pam mae halen ei cael ei ychwanegu at fwyd a pharatoi cyflwyniad byr i roi adborth i gyfoedion.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried sut a pham yr ychwanegir halen at fwyd.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> <a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a> – meddwl-paru-rhannu, sgwâr ffynhonnell.*</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> <a href="http://www.wales.nhs.uk/cym">http://www.wales.nhs.uk/cym</a></p>
--------------------	--	--



<p>Sgrin 2</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrîn hon mae tabl yn dangos 'uchafswm cymeriant halen dyddiol' pobl o wahanol oedrannau.</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw'r neges sydd yn y tabl, beth yw'r uchafswm o halen y dylent ei fwyta mewn diwrnod a sut y byddai'r swm hwn o halen yn edrych. Cânt eu hannog i fesur y swm hwn o halen i weld sut mae'n edrych.</p> <p>Hefyd ar y sgrîn mae label bwyd nodweddiadol sy'n dangos gwerthoedd gwahanol. Mae dysgwyr yn ystyried pa wybodaeth sydd ar y label bwyd ac yn ateb cwestiynau sy'n eu hannog i archwilio'r data ar y label.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried data am gymeriant halen gwahanol bobl.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> Halén, clorian fesur.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Gellir cael cyfieithiad o'r dudalen we hon: <a href="http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/salt.aspx">http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/salt.aspx</a></p> <p><a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/900/newyddion/31619">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/900/newyddion/31619</a></p>
<p>Sgrin 3</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin hon mae dau dabl o ddata ac mae'n anelu at ysgogi dysgwyr i gychwyn archwilio faint o halen rydym yn ei fwyta.</p> <p>Mae un tabl yn dangos faint o halen sydd mewn pizzas 'arferol' a pizzas 'sy'n cynnwys llai o halen' a brynwyd mewn archfarchnadoedd. Mae'r ail dabl yn dangos yr un wybodaeth ar gyfer pítsas cludfwyd.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried faint o halen sydd mewn bwyd rydym yn ei fwyta ac yn archwilio a defnyddio amrediad, modd, cymedr a chanolrif i ddisgrifio setiau data.</p>

	<p>Gofynnir i ddysgwyr edrych ar y pedair set o ddata a thrwy gyfrwng cyfres o gwestiynau i'w cefnogi, i ddefnyddio 'ystod', 'modd' 'cymedr' a 'canolrif' i ddisgrifio'r setiau data.</p>	
	<p>Hefyd gofynnir i ddysgwyr ystyried pa gasgliadau y maent yn eu tynnu o'r wybodaeth hon, pa mor sicr ydyn nhw o'r casgliadau a pha ddata arall y gallent ei gasglu i wneud y casgliadau yn fwy sicr.</p>	
<p>Sgrin 4</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Mae tabl o faint o halen sydd mewn 4 pryd o fwyd gwahanol yn cael ei ddangos.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr edrych ar y tabl a defnyddio'r wybodaeth i lunio siart bar. Darperir siart bar rhyngweithiol ar y sgrin, lle gall y dysgwyr labelu'r echelinau, nodi gwybodaeth o'r tabl mewn blychau a llusgo barrau hyd at werth cywir.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut y byddant yn labelu'r echelinau, beth yw'r newidynnau annibynnol a dibynnol, pa wybodaeth y byddant yn ei rhoi ym mhob blwch ar y siart bar a pha raddfa y byddant yn ei defnyddio.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried sut i drosglwyddo gwybodaeth o dabl i siart bar.</p>



<p>Sgrin 5</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Nod y sgrîn hon yw annog dysgwyr i ymchwilio i'r mater o faint o halen y dylem ei fwyta a faint o halen sydd yn y bwyd rydym yn ei fwyta.</p> <p>Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ddod â labeli o'u hoff fwydydd i'r ysgol ac i'w defnyddio i ystyried pa wybodaeth am halen sydd arnynt. Maent yn gweithio allan faint o halen sydd yn eu hoff bryd bwyd a faint o halen y gallent ei fwyta mewn diwrnod nodweddiadol.</p> <p>Gellid annog dysgwyr i gynnal ymchwil wyddonol i halen a'i effaith ar iechyd. Er enghraifft, maent yn ystyried gwybodaeth am effeithiau gormod o halen yn ein deiet a lawrlwytho adroddiad ar halen a iechyd gan y Pwyllgor Gwyddonol ac Ymgynghorol ar Faeth. Maent yn ystyried eu canfyddiadau ac yn eu defnyddio i greu unai poster/inffograffeg 'Iechyd y Cyhoedd' neu lythyr sy'n dwyn perswâd.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ymchwilio i faint o halen sy'n cael ei gynnwys mewn bwyd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i greu naill ai gwybodaeth iechyd y cyhoedd neu lythyr sy'n dwyn perswâd.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Gellir cael cyfieithiad o'r dudalen we hon: <a href="http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/salt.aspx">http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/salt.aspx</a></p> <p><a href="https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/welsh/foodlabelswelsh0808.pdf">https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/welsh/foodlabelswelsh0808.pdf</a></p>
--------------------	---	--

### Cyfnod Allweddol 3

#### Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, ysgogir gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr trwy eu cael i ystyried a oes cysylltiad rhwng cymeriant siwgr a gordewdra. Maent yn ystyried gwybodaeth am gymeriant siwgr a gordewdra a gyflwynir ar ffurf graff llinell, yn edrych ar y cynnwys siwgr sydd mewn bwyd ac ymchwilio i'r system goleuadau traffig o labelu bwyd. Yn olaf, mae dysgwyr yn archwilio camgysyniadau ynghylch celfyd siwgr ac yn gwneud gwaith ymchwil i gael gwybod am y celfyd.

#### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

CA3: Gwyddoniaeth: Cyddibyniaeth  
organebau

CA3: Dylunio a thechnoleg:  
Bwyd

#### FfLIRh:

Defnyddio sgiliau mesur: Hyd,  
pwysau/màs, cynhwysedd


#### Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

<p>Sgrin 1</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin hon mae llun pen sy'n dweud: "Mae bwyta gormod o siwgr yn gwneud pobl yn ordew!"</p> <p>Nod y dasg hon yw i ddysgwyr ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am honiadau a wneir ynglŷn â bwyta, gordewdra, deiet ac yn y blaen, trwy gyfrwng trafodaeth.</p> <p>Gofynnir iddynt am eu barn ac i ddweud a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r honiad ac egluro pam. Gofynnir i ddysgwyr ystyried sut y gallent archwilio p'un a oes cysylltiad</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn archwilio honiadau sy'n ymwneud ag a oes cysylltiad rhwng cymeriant siwgr a gordewdra.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Gellir cael cyfieithiad o'r dudalen we hon: <a href="http://www.nhs.uk/news/2014/01January/Pages/sugarobesity-ga.aspx">http://www.nhs.uk/news/2014/01January/Pages/sugarobesity-ga.aspx</a></p>
--------------------	---	---

	<p>rhwng faint o siwgr yn cael ei fwyta a gordewdra ai peidio. Gofynnir iddyn nhw beth y byddent yn ei fesur, pa ddata arall y byddai angen iddynt ei gasglu ac yn y blaen, Yna, gosodir y dasg o ysgrifennu cynllun i ddangos sut y byddent yn cynnal ymchwiliad, iddyn nhw.</p>	
<p>Sgrin 2</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin mae graff llinell yn dangos 'cymeriant siwgr' mewn perthynas â ' nifer yr achosion o ordewdra, UDA 1980-2013'.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr edrych ar y graff llinell ac ystyried pa fesuriadau y dengys y graff a sut y maent yn gwybod hyn.</p> <p>Mae cwestiynau yn eu hannog i adrodd stori'r graff, ystyried yr hyn y mae'r ddwy linell yn ei ddweud wrthynt a dod i gasgliadau o'r graff.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried gwybodaeth am gymeriant siwgr a gordewdra, a gyflwynir ar ffurf graff llinell.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Mae disgwyl y bydd y dudalen we hon ar gael yn y Gymraeg yn y dyfodol agos:</p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/bitesize/ks3/maths/handling_data/representing_data/revision/3/">http://www.bbc.co.uk/bitesize/ks3/maths/handling_data/representing_data/revision/3/</a></p>

<p>Sgrin 3</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Nod y sgrin hon yw ysgogi dysgwyr i gychwyn archwilio cynnwys siwgr rhai o'u hoff fwydydd.</p> <p>Gofynnir iddynt gasglu labeli oddi ar eu hoff fwydydd, archwilio pa wybodaeth am siwgr sydd ar y labeli, gweithio allan faint o siwgr sydd mewn hoff bryd bwyd a faint o siwgr y gallent ei fwyta mewn diwrnod nodweddiadol.</p> <p>Wedyn, cyflwynir tasg ymchwil fer i'r dysgwyr. Gofynnir iddynt ystyried a dod i wybod am y cymeriant siwgr dyddiol a argymhellir ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl a'r hyn y mae'r lliwiau goleuadau traffig a ddefnyddir ar labeli bwyd yn ei olygu. Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried pa bryd y mae'r goleuadau traffig yn newid lliw a beth yw'r 'ystod' ar gyfer pob lliw.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae'r dysgwyr yn archwilio'r cynnwys siwgr sydd mewn bwyd ac ymchwilio i'r system oleuadau traffig o labelu bwyd.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> Gellir cael cyfieithiad o'r dudalen we hon: <a href="http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/foodlabelling.aspx">http://www.nhs.uk/Livewell/Goodfood/Pages/foodlabelling.aspx</a></p>
<p>Sgrin 4</p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Ar y sgrin hon mae dau ben sy'n siarad. Mae'r cyntaf yn gofyn "Beth ydy clefyd siwgr?" ac mae'r ail un yn ateb "Clefyd siwgr ydy grŵp cymhleth o glefydau ag iddynt amrywiaeth o achosion. Mae gwyddonwyr yn credu bod genynnau a ffactorau amgylcheddol yn rhyngweithio i achosi clefyd siwgr yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gordewdra yn ffactor risg!"</p> <p>Nod y sgrin yw annog dysgwyr i ystyried ac archwilio beth ydy clefyd siwgr. Mae gan lawer o ddysgwyr CA3 a hefyd oedolion sawl camgysyniad ynghylch clefyd siwgr. Er enghraifft, mae llawer yn credu y gall bod dros bwysau achosi clefyd siwgr.</p> <p>Cyflwynir tasg ymchwil i'r dysgwyr. Gofynnir iddynt ddefnyddio'r rhyngwyd i ddod o hyd i ddata am glefyd siwgr ac i ystyried y cwestiynau hyn.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn archwilio camgysyniadau ynghylch clefyd siwgr ac yn gwneud gwaith ymchwil i gael gwybod am y clefyd.</p> <p><b>Cysylltiadau defnyddiol:</b> <a href="http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/clefydau/clefydsiwgr">http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/clefydau/clefydsiwgr</a>  <a href="http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/179995-mwy-o-blant-cymru-yn-dioddef-o-glefyd-siwgr">http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/179995-mwy-o-blant-cymru-yn-dioddef-o-glefyd-siwgr</a></p>



<p>A yw'r clefyd ar gynnydd neu ar ostwng? Pam mae rhai pobl sydd â chlefyd siwgr yn cymryd inswlin? Beth yw effeithiau buddiol a niweidiol inswlin ar organau'r corff dynol? Beth yw'r effeithiau eraill o'i ddefnyddio?</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried eu sgiliau ar gynnal chwiliad ar y rhyngwryd a gofynnir iddyn nhw greu 'infograffeg' i ddangos canfyddiadau eu hymchwil.</p>	
--	--

